

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

17 Chwefror 2017 am 1:30 o'r gloch
Ystafell Gynadledda'r Uned Ddemocrataidd, Neuadd y Sir

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-Gadeirydd)
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol
Cyng. Hugh Richards	HR	Annibynnol
Cyng. Ryan Bartlett	RB	Llafur
Cyng. Callum Higgins	CH	Llafur
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Swyddogion		
Bethan James	BJ	Swyddog Polisi Iaith
Llinos Evans	LLE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi Iaith
Aeron Rees	AR	Pennaeth Rhaglenni Dysgu
Paul Thomas	PT	Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)
Catrin Griffiths	CG	Ymgynghorydd Her

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Cyng. Derek Cundy, Helen Morgan.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Doedd dim yn codi o'r cofnodion.	
3.	Diweddariad am y strwythur / cyfleoedd Cymraeg i Oedolion yn y sir – Aeron Rees, yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Cefndir: Bu proses tendro ar gyfer CIO yn y gymuned. Enillwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn wreiddiol. Wedi trafodaethau ynglŷn â chyflogaeth, adenillodd y Cyngor y tendr o £150,000 i gyflwyno 1/3 y ddarpariaeth. Mae gan y Cyngor 2	

aelod o staff llawn amser, a nifer rhan amser cyfwerth â 6.2 aelod o staff llawn amser.

Lefel /Level	Nifer Cyrsiau / Number of Courses	Targed Dysgwyr / Learner target
Mynediad 1	5 cwrs	39
Mynediad 2	6 cwrs	60
Sylfaen 1	6 cwrs	46
Sylfaen 2	4 cwrs	25
Sylfaen 1/Canolradd 1	1 cwrs	*
Canolradd 1	1 cwrs	20
Canolradd 2	3 cwrs	20
Cyfanswm Total	26	210
Cymraeg i'r Teulu (45 awr)	4	35
Cymraeg i'r Teulu (15 awr)	1	9
Cyfanswm Total	5	44

Cyfanswm /Total: 357 dysgwr/ learner; Target: 254; Goresgyn Targed / Exceeding target: 103

Manylion gweithredol: Mae'r wefan wedi diweddaru. Daeth y Cytundeb yn hwyrach nac arfer. Bu *Trywydd* yn gweithio ar farchnata'r ddarpariaeth ynghyd â staff. Sefydlwyd systemau gweinyddol newydd, fel bas data a ffurflenni cofrestru, cofnodi gwariant ayb. Mae'r niferoedd ar y cyrsiau wedi rhagori ar y targedau, sy'n gadarnhaol dros ben. Mae yna weithgareddau anffurfiol wedi eu cynnal ac fe geir trafodaethau gyda'r Mentrau i gynyddu'r gweithgaredd yma.

Bu nifer o adrannau o fewn y Cyngor o gymorth ac mae gennym berthynas dda iawn gyda'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion. Rydym wedi manteisio ar hyfforddiant ac yn cael ein cynnwys ar eu fforymau. Ceir perthynas gadarnhaol gyda Phrifysgol Aberystwyth erbyn hyn.

O ran y dyfodol, bydd Bwrdd y Ganolfan yn cael argymhelliad i ymestyn y cytundeb am flwyddyn arall yn Sir Gar, sy'n rhoi sicrwydd staffio tan Awst 2018.

Heriau: Roedd rhaid rhannu dosbarthiadau a bu modd gwneud hyn drwy symud arian o 'Gymraeg i'r teulu'. Mae'r heriau hefyd yn cynnwys sicrhau bod y dysgwyr yn aros, a sicrhau ansawdd.

Mae gwefan newydd ar y ffordd gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion a chwricwlwm newydd ar y gorwel.

Bwriadwn dendro am y gwaith 'Cymraeg yn y gweithle' yn ogystal, gan sicrhau ein bod yn arallgyfeirio ychydig, yn arloesi a bod ar flaen y datblygiadau.

Roedd y cyfnod blaenorol yn heriol, ond gobeithio y gall y gwasanaeth barhau i ddarparu at y dyfodol.

HR: Byddai'n dda cael gwybod faint sy'n gadael y cyrsiau ar ôl y cofrestradau yn yr Hydref, a hefyd ble mae'r cyrsiau yn digwydd yn Llanelli.

AR: Er bod ychydig o fynd a dod, dyw'r sefyllfa ddim yn wahanol iawn i'r hyn sydd yn y tabl (a ddarparwyd). Roedd Llanelli yn strategol bwysig i ni, ond gallwn ddarganfod ble yn union wedyn. Efallai mai yn Llyfrgell Llanelli y mae'r ddarpariaeth.

AR

	<p>Nododd PHG ei fod ef a Menter Gorllewin Sir Gâr wedi methu trefnu gweithgaredd i ddysgwyr ar gyfer Parêd Caerfyrddin gyda'r swyddogion. Cadarnhaodd AR y byddai'n trafod y mater gyda'r swyddogion ac yn ceisio newid y sefyllfa.</p> <p>Holodd RB a oes gwersi wedi ailgychwyn yn Ystradowen? Cytunodd AR i wirio'r ddarpariaeth benodol hon</p> <p>Holodd CC am hyd y cytundeb gwreiddiol. Nodwyd mai 3 mlynedd oedd hyd y cytundeb felly mewn blwyddyn a hanner byddwn yn ailgychwyn ar y broses.</p> <p>Nododd AR nad ydy Aberystwyth wedi cyrraedd eu targedau o ran y cyrsiau dwys ac uwch.</p> <p>Nododd MS ei bod yn falch dros ben i weld Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn derbyn Gwobr Efydd y Siarter Iaith. Nododd hefyd bod cyrsiau Cymraeg i'r teulu wedi eu trefnu fel rhan o'r broses. Eglurodd CG am y broses o wirio a arweiniodd at y wobr a'r trefniadau a wnaed gan y plant brwdfrydig. Nododd ei fod yn ddigwyddiad arbennig, yn adlewyrchiad positif iawn o'n sefyllfa ag o sefyllfa'r plant, a bod hyder y plant yn dangos yn eu defnydd o'r iaith.</p> <p>Nododd GH ei longyfarchiadau am y niferoedd uchel sydd ar y cyrsiau Cymraeg i Oedolion.</p>	<p>AR</p> <p>AR</p>
<p>4.</p>	<p>Diweddariad gan yr isadran Rheoli Pobl – Strategaeth Sgiliau Iaith, Awdit Sgiliau Iaith a chyfleoedd dysgu</p> <p>Gweler dogfen atodol.</p> <p>Awgrymodd MS fod angen defnyddio'r hyblygrwydd y mae'r Ganolfan yn cynnig o safbwynt amserlen y cyrsiau dwys er mwyn sicrhau bod cyfnod o ymarfer yn ôl yn y gweithle yn digwydd yn ystod y cwrs.</p> <p>Holodd HR pa ganran o'r staff sydd wedi eu hasesu? Nododd PT fod 85% wedi eu cyrraedd.</p> <p>Nododd CC fod tua hanner y staff yn lefel 3 ac uwch, sy'n gyfforddus i siarad Cymraeg. Gofynnodd a oedd yna ddadansoddiad y gallwn ni weld. Cytunodd PT i gylchredeg y data.</p> <p>Holodd CC, o ran y swydd newydd, pa ganllawiau sy'n cael eu defnyddio er mwyn penderfynu ar lefelau swyddi. Nododd PT fod yna ffurflen asesiad iaith ar gael yn barod, fod y rheolwyr yn cadw copïau o'r asesiadau sydd wedi eu gwneud a bod y Comisiynydd yn gallu gofyn amdanynt.</p> <p>Nododd GH had ar chwarae bach mai newid sefyllfa'r iaith mewn swyddi cyhoeddus, ein bod yn brwydro yn erbyn pum canrif o wahardd y Gymraeg o fywyd cyhoeddus. Atgoffodd bawb mai dim ond chwarter canrif sydd wedi mynd heibio ers dileu'r ddeddf honno.</p> <p>Croesawodd PHG: yn fawr y syniad o gael un person i fod yn gyfrifol am dynnu'r cyfan at ei gilydd o ran y staff yn fewnol.</p> <p>Nododd CC nad ydy'n fframwaith sgiliau yn cyd-fynd yn union gyda lefelau ALTE. Mynychodd seminar ar y 'Common European Framework of Reference for</p>	<p>PT</p>

	<p>Languages (CEFR)' yn ddiweddar. Nododd LLE fod y lefelau wedi eu haddasu at ddibenion y Cyngor. Cytunwyd na ddylid newid y rhain am y tro ond y byddai'n ddiddorol gweld pa lefelau gaiff eu defnyddio fel rhan o'r teclyn asesu sgiliau newydd a ddaw o'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion ym mis Ebrill.</p>	
<p>5.</p>	<p>Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu</p> <p>Cefndir: Eglurodd MJ fod y Strategaeth Hybu yn ateb gofynion y Safonau, ei fod yn nodi'r gwaith sy'n digwydd eisoes i hybu'r Gymraeg yn y sir, yn adnabod 5 Cam Gweithredu ac yn cynnig rhai camau gweithredu newydd a ddaeth i'r amlwg drwy'r broses o gydgyllunio'r Strategaeth. Ers hynny, mae Cynllun Gweithredu wedi ei ddrafftio sy'n nodi'r Camau Gweithredu newydd yn ogystal â holl argymhellion 'Y Gymraeg yn Sir Gar'. Y bwriad oedd bod y Cynllun Gweithredu yn gartref newydd i'r argymhellion er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad i'r gwaith a wnaed yn dilyn y Cyfrifiad diwethaf, ac yn osgoi dyblygu'r gwaith cynllunio manwl a wnaed bryd hynny.</p> <p>Mae angen penderfynu bellach sut i ddiweddarau'r argymhellion a sut i adrodd arnynt.</p> <p>Nododd CC fod angen targedau a mesuryddion ar gyfer mesur ydy'r argymhellion yn gweithio.</p> <p>Nododd MJ fod chwilio am fesuryddion yn un o'r camau gweithredu newydd a'i fod bellach ar waith. Mae mesuryddion ar gael ar gyfer y 5 amcan. Mae 'na arolygon ar gael ond does dim digon o ddata sirol. Rydyn ni wrthi'n ceisio casglu data sirol cynhwysfawr ar hyn o bryd.</p> <p>Nododd CC fod angen mesur, ar lefel macro, nifer y siaradwyr. Ond bod angen hefyd mesur hyfywedd yr iaith.</p> <p>Nododd fod y twf yn gorfod dod o addysg, felly awgrymodd y dylai'r targedau addysg fod yn y Cynllun Gweithredu. Awgrymodd MJ fod angen i'r CSGA a'r Strategaeth Hybu eistedd ochr yn ochr. Awgrymwyd er nad Comisiynydd yn gofyn am ffigurau addysg, byddai modd i adroddiad CSGA gael ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad ar y Strategaeth Hybu.</p> <p>Cytunwyd y byddai'r panel yn parhau i dderbyn diweddariadau ar y Cynllun Gweithredu.</p> <p>Nododd GH fod Ysgolion Dwyieithog yn derm anghywir am ysgolion sydd ddim yn ysgolion Cymraeg. Nododd mai dim ond ysgolion Cymraeg sy'n creu disgyblion dwyieithog.</p> <p>Cytunodd CC fod yna ganfyddiad mai dim ond Cymraeg sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion Cymraeg.</p>	<p>Polisi</p> <p>Polisi</p>

	Cododd MS bryder am yr ardaloedd o flaenoriaeth sydd wedi eu hadnabod yn y Fforwm Sirol. Doedd hi ddim yn siŵr a oes digon yn digwydd yn yr ardaloedd hynny. Bydd yna adroddiad yn y Fforwm nesaf.	
6.	<p>Unrhyw fater arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awgrymwyd y dylid annog Cyngorau eraill i gymryd sylw o ddogfen y Gymraeg yn Sir Gar. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn iddo annog y siroedd i wneud yr un peth a'n hadroddiad ni. • Nododd PHG mai swyddogaeth y Panel Ymgynghorol yw gweithredu polisi'r Awdurdod. Nododd ei fod yn anghysurus iawn ynglŷn â'r ffaith fod aelod o'r Panel wedi gwrthwynebu polisi'r awdurdod o safbwynt yr hyn rydyn ni'n ceisio datblygu gyda'r Gymraeg, wrth bleidleisio yn erbyn symud Ysgol Llangennech ar hyd y continwmm iaith. 	Polisi
7.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>Dyddiad i'w osod ar ôl yr Etholiad.</p>	